# CYLCHLYTHYR

## CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON BRO MYRDDIN

**@facebook.com/crabromyrddinpta @craybmpta**

Cynhaliwyd cyfarfod bywiog iawn yn 'Y Sied' yn Nantgaredig ar nos Fawrth 14eg o Ionawr. Diolch i bawb a gefnogodd. Cafwyd llu o syniadau gwych i gasglu arian i'r ysgol mewn cyfnod o gynni ariannol.




# DIGWYDDIADAU NESAF:

- **6ed Chwefror – pryd o fwyd yn y Ginger yng Nghaerfyrddin am 8:30yh. Tocynnau ar werth drwy'r ysgol am £13. Lle i 40 yn unig, felly, cyntaf i'r felin.**

- **24ain o Ebrill – cyfle i ymweld gyda'r Sied, Nantgaredig. Arddangosfa goginio ac yna pryd 4 cwrs. £30 y tocyn (hanner yr arian i'r ysgol). Fe fydd tocynnau ar werth o'r ysgol – bydd gwybodaeth ar y wefan. Lle i 25 yn unig, felly, cyntaf i'r felin.**

# GWEITHGAREDDAU LLWYDDIANNUS:

**Diolch i'r gymdeithas rieni am ei syniad o ran Easyfundraising.org. Bellach mae 49 ohonoch wedi cofrestru gyda'r apel a £160 wedi ei gasglu hyd yn hyn. Ewch ati i godi arian am ddim i'r ysgol.**

Tynnwyd enillwyr y clwb 500 am fisoedd Medi i Ragfyr. Mae gwybodaeth am yr enillwyr ar y we. Mae 345 o aelodau gan y clwb bellach. Diolch yn fawr.

# CYLCHLYTHYR

## CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON BRO MYRDDIN

@facebook.com/crabromyrddinpta @craybmpta

## GOFYN AM GYMORTH:

Galwad i rieni i gynorthwyo gyda threfniadau gweini bwyd ar gyfer Eisteddfodau'r Urdd a fydd yn cael eu cynnal yn yr ysgol. Eisteddfod ddawns ar nos Lun Mawrth 23ain yn yr ysgol a'r eisteddfod gylch a fydd yn cael ei chynnal ar fore Sadwrn Mawrth yr 28ain. **Bydd cyfarfod i drefnu ar nos Lun Mawrth y 9fed am 6:00yp yn yr ysgol.** Diolch am bob cefnogaeth.

## I BLE MAE'R ARIAN YN MYND?



Mae'r arian sy'n cael ei godi gan y gymdeithas yn mynd yn uniongyrchol ar gyfer defnydd disgyblion yr ysgol. Llynedd prynwyd meinciau i'w gosod o gwmpas yr ysgol ar gyfer y disgyblion. Prynwyd troli hefyd ar gyfer cadw chromebooks newydd a roddwyd gan noddwyr. Eleni, rydym yn awyddus i godi arian ar gyfer ffynnon ddŵr newydd gan bod yr hen ffynhonnau yn dod i ben.

**CYFARFOD NESAF 18 MAI AM 6:00YH YN YR YSGOL.**